Newyddion gan Ddiogelwch Ffyrdd Cymru

Yn y Rhifyn Hwn:

- Awgrymiadau ar gyfer Gyrru yn y Gaeaf
- Cosbau am Ddefnyddio Ffôn Symudol i Ddyblu
- Ymgyrch Snap
- Cwrs Ar-lein ar gyfer Rheolwyr
- Porth ar-lein ar gyfer adnoddau
- Galw i gof seddi ceir plant
- Diogelwch Ffyrdd Rhithwir
- Clustogau hybu
- Pan mae'r gaeaf yn brathu
- Canmlwyddiant y RoSPA
- Mae Stop yn Golygu Stop
- Y Lolipop Pennaf
- Prosiect EDWARD
- Canlyniadau Ymgyrch GanBwyll
- Cyfraddau Newydd ar gyfer y Dreth Cerbyd

Gweler Diogelwch Ffyrdd Cymru ar:
Facebook a Twitter

Lluniwyd gan:
Ann Horton, Rospa
02920 250 600
ahorton@rospa.com

Nid yw Diogelwch Ffyrdd Cymru'n gyfrifol am gynnwys gwefannau allanol.

Awgrymiadau ar gyfer Gyrru yn y Gaeaf

Mae gyrru yn y gaeaf yn wahanol iawn i yrru ar adegau eraill o'r flwyddyn. Weithiau, mae amodau'n gallu bod yn eithafol, fel y gwelsom yn ystod gaeafau diweddar, gyda chyfnodau hir o eira trwm a llifogydd.

Mae mathau gwahanol o dywydd yn creu peryglon gwahanol drwy gydol y gaeaf ac mewn ardaloedd gwahanol o'r wlad ar adegau gwahanol. Gallai un daith fynd â ni drwy dywydd, ffyrdd a thraffig amrywiol iawn, felly mae angen i ni fod yn barod ar gyfer pob un ohonynt.

Mae'n bosibl y bydd yr awgrymiadau cynhwysfawr hyn ar gyfer gyrru yn y gaeaf yn eich helpu i ymdopi'n well ag amrywiaeth o beryglon tywydd tymhorol.

Cymerwch rai munudau i ddarllen drwy'r wybodaeth, oherwydd ni fyddwch yn gwybod pryd y gallai fod o ddefnydd i chi.

Cosbau am Ddefnyddio Ffôn Symudol i Ddyblu ar 1 Mawrth 2017

Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau ei bod yn bwriadu dyblu'r cosbau ar gyfer pobl sy'n cael eu dal yn defnyddio ffôn symudol wrth yrru. Daw'r newid i rym ar 1 Mawrth 2017, ac mae'n golygu gwaharddiad ar unwaith i yrwyr sydd newydd gymhwyso sydd â therfyn uchaf o chwe phwynt am y ddwy flynedd gyntaf ar ôl pasio'r prawf.

Yn achos gyrwyr newydd (sef gyrwyr a basiodd eu prawf yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf) bydd y DVLA yn diddymu eu trwydded pan fyddant yn cyrraedd 6 phwynt (yn hytrach na'r 12 pwynt arferol) o dan y Ddeddf Gyrwyr Newydd. Er mwyn adennill eu trwydded, bydd rhaid iddynt wneud cais arall am drwydded dros dro a phasio prawf theori a phrawf gyrru ymarferol eto. Mae'r cynigion newydd yn golygu y bydd gyrwyr newydd yn wynebu dirymiad eu trwydded ar eu hachos cyntaf o ddefnyddio ffôn symudol wrth yrru.

Mae'r dystiolaeth yn dangos mai gyrwyr ifanc yw'r grŵp sydd fwyaf tebygol o gael eu gweld yn defnyddio ffôn symudol wrth yrru. Pobl ifanc o dan 25 mlwydd oed yw'r mwyafrif o yrwyr newydd ac, er y cydnabyddir y bydd effaith anghymesur ar y grŵp hwn, dyma'r grŵp sy'n fwy tebygol o droseddu yn y lle cyntaf.

Erlyn Gyrwyr gan ddefnyddio Tystiolaeth Camerâu Dashfwrdd

Lansiwyd Ymgyrch Snap ym mis Hydref 2016, mewn ymateb i'r achosion cynyddol o dystiolaeth fideo a ffotograffig a gyflwynir gan bobl sydd wedi gweld troseddau gyrru ar ffyrdd yng Ngogledd Cymru.

Yn dilyn y lansiad, mae nifer o glipiau ffilm a ffotograffau wedi'u derbyn eisoes oddi wrth aelodau'r cyhoedd. Hyd yn hyn, proseswyd 58 o droseddau – yn amrywio o yrru heb y gofal a'r sylw dyladwy, methu â chydymffurfio â signal golau coch a methu â chydymffurfio â llinell wen soled.

Dywedodd y Prif Arolygydd Darren Wareing o Uned Plismona'r Ffyrdd Heddlu Gogledd Cymru: "Os oes gennych luniau o gamera dashfwrdd, neu gamera beic neu unrhyw ffynhonnell arall sydd, yn eich barn chi, yn eich cefnogi fel tyst i drosedd yrru honedig, rydym eisiau clywed oddi wrthych. Mae rhagor o wybodaeth am Ymgyrch Snap ar gael yma.

Diogelwch Ffyrdd yn y Gwaith: Cwrs Ar-lein ar gyfer Rheolwyr

Mae cwrs ar-lein newydd a ddatblygwyd gan EASST Academy mewn partneriaeth â Phrifysgol Cranfield ac IRU Academy ar gael nawr i unrhyw un sydd â chyfrifoldeb dros hyfforddiant, goruchwylio a monitro gyrwyr galwedigaethol.

Bydd y cwrs yn rhoi'r sgiliau i chi ddarparu a chynnal strategaeth gadarn o reoli diogelwch ffyrdd, gan fod fflyd ddiogel o fudd i bawb.

Bydd busnesau sy'n mabwysiadu agwedd drylwyr tuag at ddiogelwch gyrwyr yn gallu elwa ar yswiriant rhatach, llai o ddifrod i gerbydau a nwyddau, lefelau gwell o ran cadw staff a gostyngiad sylweddol mewn amser gwaith a gollir oherwydd damweiniau.

Cyflwynir y cwrs hwn ar-lein drwy 10 o ddarlithoedd fideo a arweinir gan ddiwydiant. Defnyddir enghreifftiau gwirioneddol drwy gydol y cwrs, gyda deunydd cysylltiedig i'w ddarllen ar y cyd. Yn hytrach na dysgu academaidd sych – mae'r cwrs hwn yn cyfuno astudiaethau achos, fideos animeiddio a chwisiau.

Porth Ar-lein Newydd sy'n Mapio Adnoddau ar gyfer Gyrwyr Hŷn

Lansiwyd porth ar-lein newydd ar gyfer gwaith ymchwil moduro sy'n ymwneud â defnyddwyr hŷn ac anabl.

Mae'r Porth Ymchwil Moduro, a grëwyd gan y Sefydliad Ymchwil ar gyfer Materion Defnyddwyr (Rica), yn cynnwys mwy na 80 o eitemau o waith ymchwil gan ddiwydiant, y byd academaidd a sefydliadau trydydd sector.

Mae'r porth yn defnyddio nodau tudalen i ddangos gwybodaeth ar bynciau gan gynnwys ymchwil technegol, er enghraifft ar dechnoleg eilaidd cerbydau (sy'n cynnwys popeth o danio, goleuadau a dangosyddion i wresogi, aerdymheru ac adloniant yn y car) a rôl ceir diyrrwr.

Hefyd, mae gwybodaeth ar y porth newydd am yrwyr hŷn a newid ymddygiad, hygyrchedd a defnyddioldeb ceir a thrafnidiaeth a cherbydau eraill (gan gynnwys cerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn), ac addasiadau ar gyfer modurwyr hŷn ac anabl.

Mae Rica yn elusen ymchwil defnyddwyr yn y DU sy'n arbenigo mewn ymchwil ymhlith defnyddwyr hŷn ac anabl. Mae'r elusen wedi'i lleoli yn Llundain, ac mae hefyd yn rhoi cyngor ar faterion megis symudedd a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Mae Rica'n annog swyddogion diogelwch ffyrdd i ychwanegu unrhyw adnoddau ar-lein defnyddiol i'r porth drwy ymweld â'r dudalen 'ychwanegu nod tudalen'. Bydd Rica'n gwirio'r adnodd ac yna'n ei gyhoeddi os bernir ei fod yn addas i'w gynnwys.

Galw Seddi Plant Mamas & Papas Yn Ôl

Mae Mamas & Papas wedi galw rhai seddi plant yn ôl oherwydd pryderon y gallent hollti mewn damwain. Fodd bynnag, dywedodd Mamas & Papas na chafwyd unrhyw achosion o blant yn cael eu hanafu o ganlyniad i ddefnyddio'r seddi plant sydd dan sylw.

Y seddi yr effeithir arnynt yw **Mamas & Papas Nembus, Mamas & Papas Aureus, Mamas & Papas Group 123, a Mamas & Papas Altair**. Fe'u gwerthwyd drwy Asda, Tesco, Shop Direct, manwerthwyr annibynnol a gwefan a siopau ffatri'r brand ei hun.



Diogelwch Ffyrdd Rhithwir

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi adrodd ei fod, ers 2015, wedi ymateb i dros 1,890 o wrthdrawiadau traffig ffyrdd lle bu 39 o farwolaethau a 867 o achubiadau ag anafiadau.

Bydd y Gwasanaeth yn defnyddio technoleg rithwir i godi ymwybyddiaeth o'r peryglon ar ein ffyrdd a'r Pump Peryglus, gyda ffocws ar ddefnyddio ffôn symudol wrth yrru. Mae'r fideo rhithwir 360° yn rhoi'r profiad mwyaf realistig i yrwyr o wrthdrawiad traffig ffyrdd o safbwynt teithiwr yn y sedd flaen, gyda defnyddwyr yn cael profiad llawn o gael eu rhyddhau o ddamwain. Mae'r dechnoleg yn cynnwys ffilmio 360° ac fe'i cynlluniwyd i ddangos peryglon y ffyrdd i yrwyr a'r hyn sy'n gallu digwydd os bydd pethau'n mynd o chwith, yn enwedig pan fydd eu sylw wedi'i dynnu ac wrth ddefnyddio ffôn symudol wrth yrru.

Dywedodd Shaun Moody, Pennaeth Diogelwch Ffyrdd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, "Mae angen i ni wneud popeth o fewn ein gallu i leihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd drwy ymgysylltu â phobl a'u hysbysu a'u hatgoffa am ganlyniadau defnyddio ffôn symudol wrth yrru, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth am gyflymder amhriodol, gyrru o dan ddylanwad a pheidio â gwisgo gwregys diogelwch.

"Mae gan yrru diofal y potensial i achosi amgylchiadau sy'n newid bywyd gyrrwr neu eu teithwyr, yn ogystal â phobl sydd gerllaw a defnyddwyr eraill y ffyrdd. Wrth ddefnyddio technoleg newydd megis offer rhithwir, rydym yn sicrhau y bydd y Gwasanaeth yn cadw i fyny â'r modd y mae ein cymunedau, yn enwedig gyrwyr iau, yn ymateb i negeseuon diogelwch."

Newid i'r Rheoliadau ar Glustogau Hybu

Mae'n bosibl y bydd llawer o rieni'n cael eu drysu gan y newyddion y gallai rheoliadau ar glustogau hybu newid yn fuan – o bosibl ym mis Mawrth.

Esboniodd Susan Storch, Cadeirydd Diogelwch Ffyrdd Cymru: "Bydd unrhyw newidiadau yn berthnasol i seddi hybu (clustogau hybu) newydd heb gefnau sy'n dod ar y farchnad, ac nid y rhai sydd eisoes yn cael eu defnyddio ac sy'n bodloni safonau diogelwch presennol.

"Ni fydd rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant, sy'n defnyddio clustog hybu ar hyn o bryd sy'n cydymffurfio â rheoliadau presennol, yn torri'r gyfraith os byddant yn parhau i'w defnyddio ar ôl y newid yn y rheolau. Ni fydd yn ofynnol i chi brynu sedd hybu newydd er mwyn cydymffurfio â'r newid hwn."

Mae Diogelwch Ffyrdd Cymru yn croesawu'r rheoliadau newydd sydd ar y gweill, oherwydd mae seddi a chlustogau heb gefnau yn cynnig llawer llai o amddiffyniad i blant mewn achos o wrthdrawiad. Mae www.childcarseats.org.uk yn rhoi'r manylion llawn a chyngor ar ddewis a gosod sedd car priodol ar gyfer plant.

Pan mae'r gaeaf yn brathu...

Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, gallai un daith fynd â ni drwy dywydd, ffyrdd a thraffig amrywiol iawn, felly mae angen i yrwyr fod yn barod ar eu cyfer.

Gan weithio mewn partneriaeth â Phriffyrdd Lloegr, mae Diogelwch Ffyrdd Cymru wedi llunio cyfres o bosteri i atgoffa gyrwyr i fod yn barod, i gynllunio o gwmpas y tywydd, ac i wirio rhagolygon er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

Bydd y posteri dwyieithog yn cael eu dosbarthu gan Ddiogelwch Ffyrdd Cymru drwy gyfryngau cymdeithasol. Dilynwch @roadsafetywales i gael rhagor o wybodaeth.

Mae Angen Rhagor o Gymorth ar Rieni i Gadw Plant yn Ddiogel rhag Damweiniau – Arolwg Canmlwyddiant y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau

Nid yw'r rhan fwyaf o rieni yng Nghymru yn ymwybodol mai damweiniau sy'n achosi'r nifer mwyaf o farwolaethau ymhlith plant a phobl ifanc hyd at 19 mlwydd oed, yn ôl ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer canmlwyddiant y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA), sef elusen diogelwch yn y DU.

Roedd ychydig dros draean o rieni (34 y cant) ledled y wlad wedi nodi'n gywir mai damweiniau yw prif achos marwolaethau ymhlith y grŵp oedran hwn yn y DU, gyda mwy na hanner (58 y cant) yn meddwl mai achosion marwolaeth eraill, gan gynnwys canser neu hunan-niweidio bwriadol/hunanladdiad, oedd fwyaf cyffredin, neu roeddent wedi dweud nad oeddent yn gwybod beth achosodd y rhan fwyaf o farwolaethau.

Comisiynwyd yr arolwg gan RoSPA ac fe'i cynhaliwyd gan YouGov ymhlith 1,007 o rieni i blant 18 oed ac iau ledled Prydain, a chanfuwyd hefyd fod 39 y cant o rieni yng Nghymru byth wedi derbyn neu geisio cyngor neu wybodaeth am gadw eu plentyn/plant yn ddiogel rhag damweiniau. Ond cytunodd 57 y cant y dylid cael rhagor o wybodaeth a chyngor i rieni am gadw plant yn ddiogel rhag damweiniau a chytunodd 59 y cant y dylai fod yn haws dod o hyd i'r wybodaeth. I ddysgu rhagor, cliciwch yma.

Mae Stop yn Golygu Stop – Gyrwyr yn Peryglu Bywydau

Mae plant a hebryngwyr croesfannau ysgolion mewn perygl o gael eu lladd neu eu hanafu gan yrwyr sy'n methu â stopio pan mae'r arwydd Stop yn cael ei arddangos. Mae gan yrwyr rwymedigaeth gyfreithiol i ufuddhau i arwydd hebryngwyr croesfannau ysgolion o dan Ddeddf Traffig y Ffyrdd 1988.

Cyn gynted ag y bydd hebryngwr yn codi'r arwydd, hyd yn oed os nad ydynt wedi camu i'r ffordd, mae'r gyfraith yn datgan bod rhaid i yrwyr fod yn barod i stopio.

Pan fydd hebryngwr croesfan ysgol yn sefyll yn y ffordd ac yn arddangos yr arwydd, RHAID i yrwyr stopio, a pheidio â symud ymlaen hyd nes y bydd yr hebryngwr croesfan ysgol ac unrhyw blant sydd gyda nhw wedi gorffen croesi'r ffordd.

Bydd unrhyw un a gaiff eu cyhuddo o beidio â stopio yn debygol o gael eu herlyn, a gallant wynebu dirwy o hyd at £1,000 a thri phwynt cosb ar eu trwydded yrru. Hefyd, mae'n bosibl y bydd ganddynt anaf neu farwolaeth plentyn neu hebryngwr croesfan ysgol ar eu cydwybod.

Mae hebryngwyr croesfannau ysgolion yn gwneud gwaith gwych ym mhob tywydd ac weithiau mae'r cam-drin a'r bygythiadau geiriol y maent yn eu dioddef, dim ond am wneud eu gwaith, yn anodd eu deall. Rhoddir gwybod i'r Heddlu am unrhyw ddigwyddiad o'r fath.

Diolch byth, mae'r mwyafrif o yrwyr yn gwrtais ac yn stopio pan ofynnir iddynt, ond mae'n hanfodol bod pob un gyrrwr yn cydymffurfio â'r gyfraith er mwyn sicrhau ein bod yn cadw ein plant, a'n hebryngwyr croesfannau ysgolion rhagorol ac ymroddedig, yn ddiogel ledled Cymru.

TISPOL (Rhwydwaith Heddlu Traffig Ewrop) yn Cyhoeddi Canlyniadau Prosiect EDWARD

Ar ddydd Mercher 21 Medi 2016 (sef diwrnod Prosiect EDWARD) bu 43 o farwolaethau ar ffyrdd ledled 31 o wledydd. Mae hyn yn cymharu â 70 o farwolaethau ar yr un diwrnod yn 2015 ac mae'n ostyngiad tebyg-am-debyg o bron i 39 y cant.

Ni chofnodwyd unrhyw farwolaethau o gwbl ar 21 Medi mewn 19 o wledydd, o gymharu â 11 o wledydd yn 2015. Roedd wyth o'r gwledydd hyn wedi cofnodi o leiaf un farwolaeth ar 21 Medi 2015. Cofnodwyd gostyngiad mewn marwolaethau mewn saith gwlad arall, o gymharu â'r un diwrnod yn 2015. Cofnodwyd cynnydd mewn marwolaethau mewn tair gwlad. Mae taflen â'r canlyniadau llawn fesul gwlad ar gael yma.

- Cyrhaeddiad unigryw o 19,298,225 ar gyfer #ProjectEDWARD
- Trendio yn y 5 uchaf yn y DU
- Cafodd Prosiect EDWARD ei gynnwys yn Twitter Moments Today
- Ar un adeg, roedd yn trendio yn y 50 uchaf yn fyd-eang

Cynhelir diwrnod Prosiect EDWARD eto yn 2017 ar 21 Medi.

Canlyniadau Ymgyrch "Rheol 20mya y Tu Allan i Ysgolion" GanBwyll

Mae GanBwyll wedi ymrwymo i leihau nifer yr anafiadau ar ffyrdd Cymru, ac mae'n cynnal ymgyrchoedd rheolaidd mewn parthau 20mya er mwyn dylanwadu ar ymddygiad modurwyr. Mae hyn yn golygu gorfodi cyfyngiadau cyflymder ar ddechrau a diwedd diwrnodau ysgol.

Yr Arolygydd Lee Ford oedd y swyddog a fu'n gyfrifol am yr ymgyrch. Dwedodd: "Mae GanBwyll wedi bod yn falch yn gyffredinol o'r gefnogaeth eang rydym wedi'i derbyn ar gyfer yr ymgyrch hon. Rydym wedi ymweld â nifer fawr o ysgolion, ac mewn rhai ysgolion, rydym wedi bod yn bresennol a heb gofnodi unrhyw droseddau, sydd wrth gwrs yn ddymunol.

"Fodd bynnag, cafwyd rhai cerbydau'n teithio ar gyflymder llawer uwch na'r terfyn cyflymder. Y cyflymder uchaf a gofnodwyd oedd 46mya, sydd ymhell dros ddwywaith y terfyn a nodir, ac mae hynny'n annerbyniol. Hefyd, cafwyd nifer o droseddau yn ymwneud â gwregysau diogelwch a nodwyd nifer o yrwyr yn defnyddio ffonau symudol.

"Roeddem wedi cofnodi cyfanswm o 977 o droseddau goryrru yn ystod yr ymgyrch a barhaodd am wythnos. Y neges rydym eisiau i bobl ei deall yw na fydd goryrru a throseddau moduro eraill yn cael eu goddef ar ffyrdd Cymru."

Y Lolipop Pennaf

Yn Seremoni Wobrwyo Diogelwch Ffyrdd Bro Morgannwg yn ddiweddar, cafodd pobl sy'n gweithio fel hebryngwyr croesfannau ysgolion ledled y sir eu cydnabod a'u gwobrwyo am eu cyfraniad i ddiogelwch ar y ffyrdd. Hefyd, diolchwyd cydlynwyr a gwirfoddolwyr Cynllun Hyfforddiant Cerddwyr Ifanc Kerbcraft yn ystod y cyflwyniad eleni.

Cyflwynwyd gwobr Hebryngwr Croesfan Ysgol y Flwyddyn i Sandra Riggott, sy'n aelod poblogaidd ac adnabyddus dros ben o gymuned Ysgol Gynradd Colcot. Roedd yn deilwng o'r wobr, oherwydd mae Sandra, yn ogystal â chyflawni ei dyletswyddau rheolaidd, yn ymweld â'r ysgol yn aml i siarad â'r plant am ddiogelwch ar y ffyrdd, ac am ei swydd fel hebryngwr croesfan ysgol.

Bu Aelod Cabinet Cyngor Bro Morgannwg dros Wasanaethau Adeiladu, Priffyrdd a Thrafnidiaeth, y Cynghorydd Peter King, yn diolch i bawb am fynychu'r cyflwyniad. Dywedodd: "Cafodd y Gwasanaeth Hebryngwyr Croesfannau Ysgolion a Chynlluniau Kerbcraft eu sefydlu i gydnabod yr angen i gadw plant yn ddiogel yn yr awyr agored, ar a ger ein ffyrdd prysur. Mae llwyddiant unrhyw gynllun yn dibynnu ar ymrwymiad ac ymroddiad yr unigolion sy'n cymryd rhan. Mae sefyll mewn glaw trwm a gwylio gyrwyr, tra'n addysgu plant am ddiogelwch ar y ffyrdd a darparu man diogel ar gyfer croesi, yn gofyn am unigolyn ymroddedig a brwdfrydig iawn." Darllenwch y stori lawn yma.

Cyfraddau Newydd ar gyfer y Dreth Cerbyd

Bydd y ffordd y mae'r dreth cerbyd yn cael ei chyfrifo yn newid ar gyfer ceir a rhai cartrefi modur a gaiff eu cofrestru gyntaf gyda'r DVLA o 1 Ebrill 2017. Ni fyddwch yn cael eich effeithio os cafodd eich cerbyd ei gofrestru cyn 1 Ebrill 2017 – gwiriwch eich cyfradd dreth cerbyd i gael gwybod faint y bydd angen i chi ei dalu.

Bydd y swm y byddwch yn ei dalu y tro cyntaf y byddwch yn trethu eich cerbyd yn seiliedig ar allyriadau CO2. Gwiriwch y tablau cyfraddau treth cerbyd i gael gwybod faint y bydd angen i chi ei dalu.

Bydd y swm i'w dalu'r ail dro y byddwch yn trethu'r cerbyd yn dibynnu ar y math o gerbyd. Byddwch yn talu:

- £140 y flwyddyn ar gyfer cerbydau petrol neu ddiesel arferol
- £130 y flwyddyn ar gyfer cerbydau tanwydd amgen (sef cerbydau hybrid, bioethanol a LPG)
- £0 ar gyfer cerbydau heb allyriadau CO2 o gwbl

Os byddwch yn prynu cerbyd gyda phris rhestru (sef y pris a gyhoeddir cyn unrhyw ostyngiadau) o fwy na £40,000, byddwch yn talu cyfradd yn seiliedig ar allyriadau CO2 y tro cyntaf y caiff ei drethu. Pan fyddwch yn ei drethu am yr ail dro, byddwch yn talu un o'r cyfraddau newydd (yn dibynnu ar y cerbyd) a chyfradd ychwanegol o £310 y flwyddyn am y 5 mlynedd nesaf. Ar ôl 5 mlynedd, bydd eich cerbyd yn cael ei drethu yn ôl un o'r cyfraddau newydd eto.

Gofynnwch i'ch gwerthwr beth yw'r pris rhestru, fel y byddwch yn gwybod faint o dreth cerbyd y bydd yn rhaid i chi ei dalu.Gallwch wirio'r cyfraddau treth ar gyfer pob cerbyd os ydych yn meddwl am brynu cerbyd newydd neu ail-law.

Hefyd, gallwch wneud cais am ostyngiad ar eich treth cerbyd os ydych yn hawlio rhai budd-daliadau penodol.